

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Gareth Evans



Daw Gareth Evans o Benparcau, Aberystwyth, ond mae wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer bellach wedi degawd dramor yn Sbaen a'r Almaen. Cychwynnodd ei yrfa gyda Radio Cymru, cyn troi at ysgrifennu ar gyfer y teledu. Mae ganddo brofiad helaeth fel sgriptiwr a storiwr, yn bennaf ar gyfer Pobol y Cwm. Roedd ei nofel gyntaf, *Gethin Nyth Brân*, ar restr fer Gwobr Tir na n-Og 2018. Cyhoeddodd *Y Pibgorn Hud* gyda Gwasg Carreg Gwalch ym Medi 2020, a chyfieithiad Saesneg ohoni fis Ebrill 2022 yn dwyn y teitl *The Magic Hornpipe*.



### Crynodeb:

Nofel hanesyddol yw *Y Ferch o Aur* wedi'i lleoli yn merw'r 6ed ganrif, yn ddilyniant i'r nofel ar gyfer yr ardegau ifanc, *Y Pibgorn Hud*.

Mae Ina ac Ebba bellach ill dwy yn rhan o deulu Caradog ac Eleri, a'u plant Macsen a Gwennan. Byth ers i Ebba ddarganfod carreg gydag aur ynddi mae rhai o ddynion y gaer wedi bod yn chwilio'n ddyfal am wythien. A chyn pen dim, deuir o hyd i wythien addawol. Nid o aur, ond o haearn. Aiff y neges yn ôl i'r famwlad, a gyda dyfodiad mwynwyr mentrus i Frythonia, daw helbul ac antur yn ogystal.

### Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Y Ferch o Aur*?

Ail ran mewn trioled yw'r *Ferch o Aur*, felly dilyniant i'r *Pibgorn Hud*. Yr hyn wnaeth fy ysbrydoli i ysgrifennu'r trioled oedd darganfod drwy hap tra ar fy ngwyliau yng ngogledd Sbaen fod gan y Brythoniaid - yr hen Gymry - wladfa o ryw fath yn Galisia yn yr oesoedd canol cynnar iawn. Doeddwn i erioed wedi clywed am y wladfa hon - Britonia - ac, erbyn deall, does dim llawer o bobl eraill wedi clywed amdani chwaith. Roedd yr holl beth yn ymddangos mor hynod, mi daniodd fy nychymyg.

### Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Yn bennaf, mwynhad! Gan fod y llyfr mewn lleoliad ac amser anghyfarwydd, sef y flwyddyn 554, dwi'n gobeithio y bydd yn cynnig persbectif newydd ar ein hanes. Mae nifer o'r themâu yn y nofel yn berthnasol hefyd i heddiw. Er enghraifft, un o'r themâu pwysicaf yn y llyfr yw'r cwestiwn o berthyn ac integreiddio gan mai estrones yw Ebba, ac felly'n dod o gefndir cwbl wahanol - o ran iaith, diwylliant a chrefydd - i'r bobl mae'n byw yn eu mysg.

### Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

Dwi'n cofio bod wrth fy modd yn mynd i hen lyfrgell Aberystwyth, sydd yn anffodus wedi cau ers blynyddoedd, oedd mewn adeilad hardd o'r 1900au cynnar, yn gyntaf gyda fy mam neu fy nhad, ac yna ar fy mhen fy hun. Roedd bod yng nghanol cymaint o lyfrau yn ei hun yn gyffrous, a chael dewis a benthg hyn o hyn o lyfrau yn teimlo'n rhywbeth aeddfed iawn i'w wneud. Dwi hefyd wedi treulio oriau dirifedi yn Llyfrgell Genedlaethol yn gwneud ymchwil a hel syniadau - Ystafell Ddarllen y Gogledd yw un o fy holl lefydd yn y byd i gyd.

### A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer teitlau pellach?

Oes. Trydedd rhan y trioled. Mae'r nofel yn digwydd tair blynedd ar ôl *Y Ferch o Aur*, sy'n golygu fod y cymeriadau bellach yn 17 oed. Y gobaith yw ei chyhoeddi erbyn y Nadolig, 2024.



[carreg-gwalch.cymru](http://carreg-gwalch.cymru)



Llyfrgelloedd Cymru  
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A  
ar wefan

[llyfrgelloedd.cymru](http://llyfrgelloedd.cymru)